

7. Taith Gogledd Llandysul/ Pont-Tyweli

Pellter ac amcangyfrif o'r amser: 6.5km (4 milltir) 2½–3 awr, ac eithrio seibiannau. Gellir cydgysylltu sawl un o deithiau cerdded ardal Llandysul i gynyddu neu fyrhau'r pellter cerdded.

Tir: Gellir gwneud y daith hon gydol y flwyddyn ac mae'n eich tywys drwy dir parc, lonydd gwledig, ar draws tir amaeth agored sydd â golygfeydd braf ar draws Llandysul, Dyffryn Clettwr a brynau Sir Gaerfyrddin. Mae rhiwiau serth i'w dringo ar rai rhannau o'r daith. Argymhellir esgidiau cerdded a socasau ar ôl glaw trwm. Dylid cadw cŵn ar dennyn.

Addas i: Unrhyw un.

Gradd: C yn unol â'r meini prawf ar dudalen 1.

Cychwyn: Maes parcio canol tref Llandysul, sef OS SN418406.

Lluniaeth: Mae dewis yn Llandysul o gaffis, bwytai a thafarnau traddodiadol (www.llandysul-ponttyweli.co.uk) a lleolir meinciau picnic yn y parc sydd wrth ymyl y maes parcio a'r safle bws.


Toiledau Cyhoeddus: Llandysul – Maes parcio (sy'n hygyrch i bobl anabl ac sy'n meddu ar gyfleusterau newid babanod) OS SN418406.

Mapiau: Map O/S Explorer 185 1:25000 Castell Newydd Emlyn.

Opsiynau pellach:

Opsiynau Hirach – Cyfunwch y daith gerdded hon â:

- Rhan o daith gerdded rhif 8, sef Gogledd Llandysul/Pont Tyweli (5km, 2 awr yn hirach, ac eithrio seibiannau).
- Ar y dechrau neu'r diwedd, ychwanegwch daith gerdded rhif 1, sef taith gerdded hanesyddol tref Llandysul (1.6km, 1 awr, ac eithrio seibiannau).



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ceredigion, 100024419, 2011.

Disgrifiad manwl o lwybr y daith

Maes parcio Llandysul i Goedwig Fron-goch

Gadewch y maes parcio yng nghanol tref Llandysul a throwch i'r chwith i'r Heol Newydd. Ar ôl 300 metr, trowch i'r chwith i Stryd y Bont a chroeswch y bont dros yr Afon Teifi. Trowch i'r chwith yn union ar ôl siop gweithgareddau awyr agored Padlwyr Llandysul a cherddwch i'r dde i ystordy Padlwyr Llandysul. Dilynwch lan yr afon heibio i lyn artiffisial, dros bompren droed a chroeswch sticil. Dilynwch lwybr sydd ag arwyddion i fyni'r rhiw hyd at giât a sticil yn union i'r dde i dŷ Tanrallt. Trowch i'r chwith i'r ffordd. Cerddwch ar hyd y ffordd sydd â choedwig Allt Dôl-Llan ar y dde. Ar ôl 150 metr, mae'r ffordd yn tynnu tua'r dde ① heibio i fynedfa'r *Three B Stud* ac yn cychwyn dringo rhiw serth. Ewch heibio i fynedfa tŷ Dolhuan a thŷ Beechwood, ac wrth i'r ffordd wastadu, ewch heibio i Feithrinfa'r Buarth Fferm. Ar ôl 700 metr, mae'r ffordd yn mynd tua'r dde ac yn cychwyn dringo'n araf bach heibio i Goedwig Allt Fron-goch.

Coedwig Allt Fron-goch i fferm Penrhiw

Yn fuan ar ôl Coedwig Fron-goch a 25 metr cyn fferm Fron-goch, ewch drwy giât ② ar y dde a dilynwch hen lwybr tua'r chwith i hen lidiart fferm haearn. Dilynwch y llwybr anelwig ar eich hyd ar draws ochr y bryn ac, wrth ffin y cae, trowch i'r dde ac ewch i fyni i sticil sydd yn y gornel chwith yn y pen uchaf. Croeswch y cae nesaf yn groes-gongl tua'r dde at giât fetel. Ewch i mewn i lwybr fferm llydan a pharhewch yn syth i lawr y gwaered (2 giât) drwy fferm Penrhiw a'r ffordd fawr.

Fferm Penrhiw i'r rheilffordd segur

Croeswch y ffordd brysur yn ofalus i giât (mae arwydd) a dilynwch y llwybr ar draws pen uchaf y cae ac i'r goedwig. (*Ffordd arall o fynd – trowch i'r dde allan o fferm Penrhiw a dilynwch y ffordd am 250 metr i groesi sticil i fynd i mewn i'r goedwig. Disgynnwch ar hyd stepiau i gyrraedd y llwybr a ddisgrifir uchod*). Mae'r llwybr yn mynd yn raddol i lawr gwaered am 200 metr i gyfarfod â llwybr coedwig arall. Trowch i'r chwith ac ewch i lawr i gae gyda'r afon ar y dde ③. Croeswch y cae yn groes-gongl i'r gornel chwith a phont. Croeswch y bont a sticil i gyrraedd y rheilffordd segur.

Rheilffordd segur i Landysul

Yn anffodus, nid yw rhan gychwynnol llwybr y rheilffordd yn hawl tramwy. Yn hytrach, croeswch y sticil yr ochr arall i'r llwybr a dilynwch ffin y cae (Afon Gwyddil) i giât mochyn a'r ffordd fawr. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 150 metr i giât mochyn ④ ac ailymunwch â llinell y rheilffordd. Dilynwch y rheilffordd am 1.3km i gyrraedd y ffordd fawr (cerddwch i'r dde i hen ffensys pan neshawch at y ffordd), trowch i'r dde a chroeswch y drosffordd. Dilynwch y ffordd am 250 metr i'r gyffordd (Tafarn Half Moon), trowch i'r dde a dilynwch y ffordd drwy Bont-Tyweli i'r bont dros yr Afon Teifi. Ewch yn ôl i'r maes parcio.